**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 22ain o CHWEFROR , 2021**

**PRESENNOL**
Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dylan Jones,

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Ionawr, 2021.

**ARCHWILIAD ALLANOL CYFRIFON YN DIWEDDU 31ain MAWRTH, 2020**
Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan yr Archwilydd Allanol BDO fod yr archwiliad ar gyfer y cyfrifon yn diweddu Mawrth 2020 bellach wedi eu cwblhau ac nid oedd unrhyw faterion wedi codi o'r archwiliad.

**CYNLLUNIO**
Cais cynllunio cyfeirnod 0/48161 - Mr & Mrs B Hughes, - Newid defnydd o fod yn llety gwyliau ar rent i ancecs mam-gu yn atodol i'r annedd bresennol (newid defnydd yn ôl i'r defnydd cymeradwyedig gwreiddiol dan gyfeirnod cynllunio 0/28946) - The Old Rectory , Ffordd Llanddoged, Llanddoged LL26 0AJ.
Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phenderfynwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

**PONT DOLGARROG MAENAN**
Derbyniwyd neges gan Gyngor Cymuned Dolgarrog yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i gadw'r bont Dolgarrog yn agored i gerddwyr. Cafodd Cyngor Dolgarrog wybodaeth gan Bwrdd Dwr Cymru fod bwriad ganddynt i gau pont Dolgarrog i gerddwyr oherwydd amgylchiadau diogelwch. Trafodwyd y mater a phasiwyd i'r clerc anfon neges yn ôl at Gyngor Cymuned Dolgarrog i ddatgan cefngeth i gadw'r bont yn agored. Nododd Cyng Austin Roberts ei fod wedi ymateb i e-bost a gafodd gan Bwrdd Dwr yn datgan ei siomedigaeth o benderfyniad y Bwrdd Dwr Cymru o gau'r bont yn barhaol ac yn eu hannog nhw gynnal trafodaethau gyda Chyngor Conwy a Netwrok Rail i ddod i ryw drefniant o gadw'r bont yn agored.

**RHAGLEN GYFALAF AILWAMPIO PRIFFYRDD 2021/22**
Derbyniwyd e-bost gan Mr Simon Billington o'r Cyngor Sir angen gwybodaeth gan y Cyngor cymuned o flaenoriaethu pa ffyrdd sydd angen sylw yn ardal Llanddoged a Maenan. Trafodwyd y ffyrdd a rhestrwyd fel a ganlyn:-

1) Ffordd o bentref Llanddoged i fyny hyd at Tyrpeg.
2) Ffordd Fron Francis, Llanddoged.
3) Ffordd o Ffrith Isaf hyd at Ffrith Uchaf Maenan
4) Ffordd Cefn Llech at Garreg Lwyd, Maenan.
5) Ffordd Efail Uchaf wrth Capel Salem.
6) Ffordd o Tŷ'r Ysgol Maenan hyd at Hanner Ffordd Maenan.

**CYNNAL A CHADW**

1) Grid wedi blocio , ffordd Fron Francis o dan Aneddle, Llanddoged.
2) Draen wedi blocio wrth Garth, Maenan.
3) Nifer eraill o ddraeni wedi blocio o gwmpas yr ardal - cais i anfon lori o gwmpas yr ardal.
4) Twll dwfn ar yr allt wrth ymyl Llidiart y Mynydd Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
5) Angen llenwi dau dwll dwfn ar ffordd Bryn Saith ar ôl pasio Rhiwlas wrth ymyl y man pasio.
6) Dau dwll ar y Ffordd Tyrpeg Uchaf wrth Pen Bryn Doged Llanddoged.

**CYLLID**

Cyfrif Cyfredol - £4,507.29     Cyfrif Cadw - £2,970.15

Arwyddwyd (Cadeirydd) ……………………………… Dyddiad …………………………………………………………………………….